



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 Rhif 1643 (Cy.212)

2012 No. 1643 (W.212)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion
(Trosi o fod yn Fwrdd Gweithredol
Interim) (Cymru) 2012**

**The School Governance (Transition
from an Interim Executive Board)
(Wales) Regulations 2012**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chorff llywodraethu ysgol yn trosi o fod yn gorff a gyfansoddwyd fel bwrdd gweithredol interim yn unol ag Atodlen 1A i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i fod yn gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn unol ag adran 19(1) o Ddeddf Addysg 2002.

These Regulations make provision relating to the transition of a school's governing body from being constituted as an interim executive board in accordance with Schedule 1A to the School Standards and Framework Act 1998 to being a governing body constituted in accordance with section 19(1) of the Education Act 2002.

O leiaf chwe mis cyn i'r bwrdd gweithredol interim beidio â gweithredu rhaid i'r awdurdod lleol wneud trefniadau i sefydlu corff llywodraethu cysgodol (rheoliad 5). Cyfansoddir y corff llywodraethu cysgodol yn yr un modd â chorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn llawn o dan Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, ac felly bydd ganddo'r un categorïau o lywodraethwyr a'r un nifer o lywodraethwyr ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion (rheoliadau 6 a 7).

At least six months before the interim executive board ceases to operate the local authority must make arrangements to establish a shadow governing body (regulation 5). The shadow governing body will be constituted in the same way as a fully constituted governing body under the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005, so it will have the same categories of governors and the same numbers of governors for different types of schools (regulations 6 and 7).

Mae darpariaethau Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 sy'n ymwneud â chymwysterau llywodraethwyr, ymddiswyddiadau llywodraethwyr a symud llywodraethwyr o'u swyddi yn gymwys i lywodraethwyr cysgodol (rheoliad 8). Gwneir darpariaeth ar gyfer penodi cadeirydd, is-gadeirydd a chlerc (rheoliadau 9 a 10). Rhaid i gorff llywodraethu cysgodol gyflawni unrhyw swyddogaethau a gaiff eu dirprwyo iddo gan y bwrdd gweithredol interim (rheoliad 12). Rhaid i'r clerc fynychu cyfarfodydd y corff llywodraethu cysgodol a sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw ac yn cael eu llofnodi gan y cadeirydd. Yn ddarostyngedig i

Provisions of the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005 relating to qualifications of governors, resignation and removal are applied to shadow governors (regulation 8). Provision is made for a chair, a vice chair and a clerk to be appointed (regulations 9 and 10). The shadow governing body must carry out any functions delegated to it by the interim executive board (regulation 12). The clerk must attend meetings of the shadow governing body and ensure that minutes are taken and signed by the chair. Subject to certain exclusions (set out in regulation 14(2)), those minutes must be made available to interested persons. In all other respects the

eithriadau penodol (a nodir yn rheoliad 14(2)), rhaid trefnu bod y cofnodion hynny ar gael i bersonau sydd â buddiant. Ym mhob ffordd arall rhaid i'r corff llywodraethu cysgodol benderfynu ei weithdrefn ei hun (rheoliad 11).

Pan fo'r aelodau gweithredol interim yn gadael eu swydd, ymdrinnir â'r corff llywodraethu cysgodol fel petai'n gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal. Ymdrinnir â'r llywodraethwyr cysgodol fel pe baent wedi bod yn llywodraethwyr corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn llawn o ddyddiad y penodiad neu'r etholiad, a rhaid trin y cadeirydd, is-gadeirydd a'r clerfc fel pe baent wedi cael eu hethol neu eu penodi o dan Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 (rheoliad 15).

shadow governing body must determine its own procedure (regulation 11).

When the interim executive members vacate office, the shadow governing body is treated as if it were a normally constituted governing body. The shadow governors are treated as though they had they had been governors of a fully constituted governing body from the date of appointment or election, and the chair, vice chair and clerk are to be treated as though they had been elected or appointed under the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005 (regulation 15).

2012 Rhif 1643 (Cy.212)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion
(Trosi o fod yn Fwrdd Gweithredol
Interim) (Cymru) 2012**

Gwnaed 22 Mehefin 2012

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 26 Mehefin 2012

Yn dod i rym 1 Medi 2012

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 19(2) a (3) o Atodlen 1A i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt(2), a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 2002(3) ac a freiniwyd bellach ynddynt(4), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwysu

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Trosi o fod yn Fwrdd Gweithredol Interim) (Cymru) 2012 a deuant i rym ar 1 Medi 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "aelod gweithredol interim" ("*interim executive member*") yw aelod o gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn unol ag Atodlen 1A i Ddeddf 1998;

-
- (1) 1998 p.31. Mewnsoododd adran 59(2) o Ddeddf 2002 Atodlen 6 i'r Ddeddf honno i mewn i Ddeddf 1998 fel Atodlen 1A. I gael ystyr "regulations" gweler adran 142(1).
- (2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Atodlen 1A i Ddeddf 1998 (fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf 2002) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 211 o Ddeddf 2002, ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
- (3) 2002 p.32. I gael ystyr "regulations" gweler adran 212(1).
- (4) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 19 o Ddeddf 2002 i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

2012 No. 1643 (W.212)

EDUCATION, WALES

**The School Governance (Transition
from an Interim Executive Board)
(Wales) Regulations 2012**

Made 22 June 2012

*Laid before the National
Assembly for Wales* 26 June 2012

Coming into force 1 September 2012

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by paragraph 19(2) and (3) of Schedule 1A to the School Standards and Framework Act 1998(1) and now vested in them(2), and in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales under section 19 of the Education Act 2002(3) and now vested in them(4), make the following Regulations:

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the School Governance (Transition from an Interim Executive Board) (Wales) Regulations 2012 and they come into force on 1 September 2012 .

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Interpretation

2. In these Regulations—

"the 1998 Act" ("*Deddf 1998*") means the School Standards and Framework Act 1998;

-
- (1) 1998 c.31. Section 59(2) of the 2002 Act inserted Schedule 6 of that Act into the 1998 Act as Schedule 1A. For the meaning of "regulations" see section 142(1).
- (2) The functions of the Secretary of State under Schedule 1A to the 1998 Act (as inserted by the 2002 Act) were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and section 211 of the 2002 Act, and then to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).
- (3) 2002 c.32. For the meaning of "regulations" see section 212(1).
- (4) The functions of the National Assembly for Wales under section 19 of the 2002 Act were transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

ystyr "awdurdod" ("authority") yw'r awdurdod lleol y mae ysgol a gynhelir yn cael ei chynnal ganddo;

ystyr "bwrdd gweithredol interim" ("*interim executive board*") yw corff llywodraethu a gyfansoddwyd yn unol ag Atodlen 1A i Ddeddf 1998 (cyrff llywodraethu o aelodau gweithredol interim);

mae i "corff llywodraethu cysgodol" ("*shadow governing body*") a "llywodraethwyr cysgodol" ("shadow governors") yr ystyr a roddir yn rheoliad 5(2);

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002; ac

ystyr "y Rheoliadau Llywodraethu" ("*the Government Regulations*") yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005(1).

"the 2002 Act" ("*Deddf 2002*") means the Education Act 2002;

"authority" ("*awdurdod*") means the local authority by which a maintained school is maintained;

"the Government Regulations" ("*y Rheoliadau Llywodraethu*") means the Government of Maintained Schools (Wales) Regulations 2005(1);

"interim executive board" ("*bwrdd gweithredol interim*") means a governing body constituted in accordance with Schedule 1A to the 1998 Act (governing bodies of interim executive members);

"interim executive member" ("*aelod gweithredol interim*") means a member of a governing body constituted in accordance with Schedule 1A to the 1998 Act; and

"shadow governing body" ("*corff llywodraethu cysgodol*") and "shadow governors" ("llywodraethwyr cysgodol") have the meaning given in regulation 5(2).

Eithrio darpariaethau penodol

3. Ac eithrio fel a nodir isod nid yw rheoliadau a wneir yn rhinwedd is-adrannau (2) neu (3) o adran 19 neu adran 23 o Ddeddf 2002 i fod yn gymwys mewn perthynas â chorff llywodraethu cysgodol.

Addasiadau o'r Rheoliadau Llywodraethu

4.—(1) Mae'r addasiadau canlynol i'r Rheoliadau Llywodraethu yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(2) Mae cyfeiriadau at "corff llywodraethu", "llywodraethwr" a "llywodraethwyr" i'w darllen fel cyfeiriadau at "corff llywodraethu cysgodol", "llywodraethwr cysgodol" a "llywodraethwyr cysgodol".

(3) Mae cyfeiriadau at wahanol categorïau o lywodraethwyr i'w darllen fel cyfeiriadau at lywodraethwyr cysgodol o'r un categori.

Trefniadau ar gyfer sefydlu corff llywodraethu cysgodol

5.—(1) O leiaf chwe mis cyn y dyddiad a roddir mewn hysbysiad a gyflwynir o dan adran 16A(1)(2) neu 18A(1)(3) o Ddeddf 1998, neu baragraff 17(1) o Atodlen 1A iddi, fel y dyddiad y mae'r corff

Exclusion of certain provisions

3. Save as set out below regulations made by virtue of subsections (2) or (3) of section 19 or section 23 of the 2002 Act are not to apply in relation to the shadow governing body.

Modifications of the Government Regulations

4.—(1) The following modifications of the Government Regulations apply for the purposes of these Regulations.

(2) References to "governing body", "governor" and "governors" are to be read as references to "shadow governing body", "shadow governor" and "shadow governors".

(3) References to different categories of governors are to be read as references to shadow governors of the same category.

Arrangements for the establishment of shadow governing body

5.—(1) At least six months before the date given in a notice served under section 16A(1)(2) or 18A(1)(3) of, or paragraph 17(1) of Schedule 1A to, the 1998 Act, as the date on which the governing body is to become

(1) O.S. 2005/2914 (Cy.211), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/3200 (Cy.236).

(2) Mewnosodwyd gan adran 57 o Ddeddf 2002 a'i diwygio gan Atodlen 9 i Ddeddf Addysg 2005 (p.18) a chan Atodlen 7 i Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40).

(3) Mewnosodwyd gan adran 59 o Ddeddf 2002 a'i diwygio gan Atodlen 9 i Ddeddf Addysg 2005 a chan Atodlen 7 i Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006.

(1) S.I. 2005/2914 (W.211), as amended by S.I. 2005/3200 (W.236).

(2) Inserted by section 57 of the 2002 Act and amended by Schedule 9 to the Education Act 2005 (c.18) and by Schedule 7 to the Education and Inspections Act 2006 (c.40).

(3) Inserted by section 59 of the 2002 Act and amended by Schedule 9 to the Education Act 2005 and by Schedule 7 to the Education and Inspections Act 2006.

llywodraethu i ddod yn gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal, rhaid i'r awdurdod wneud trefniadau sy'n darparu ar gyfer sefydlu corff llywodraethu i'r ysgol gan ragweld y trosiad i gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal⁽¹⁾.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, cyfeirir at gorff llywodraethu a sefydlir felly fel corff llywodraethu cysgodol a chyfeirir at aelodau o'r corff llywodraethu cysgodol fel llywodraethwyr cysgodol .

(3) Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn yn rhwystro aelod gweithredol interim rhag cael ei benodi neu ei ethol yn llywodraethwr cysgodol.

Aelodau o gorff llywodraethu cysgodol

6. Cyfansoddir corff llywodraethu cysgodol o aelodau a etholwyd neu a benodwyd yn ôl y digwydd yn unol â rheoliadau 4 i 12A o'r Rheoliadau Llywodraethu fel y'u haddaswyd gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn.

Cyfansoddiad corff llywodraethu cysgodol

7. Rhaid i gorff llywodraethu cysgodol ysgol gael ei gyfansoddi'n unol â'r rheoliadau 13 i 20 hynny o'r Rheoliadau Llywodraethu, fel y'u haddaswyd gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys wrth roi sylw i gategori'r ysgol.

Cymwysterau, ymddiswyddiadau a symud llywodraethwyr cysgodol o'u swyddi

8. Mae rheoliadau 24 a 26 i 30 o'r Rheoliadau Llywodraethu ac Atodlen 5 iddynt fel y'u haddaswyd gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran llywodraethwyr cysgodol.

Cadeirydd ac is-gadeirydd

9.—(1) Rhaid i'r corff llywodraethu cysgodol, yn ei gyfarfod cyntaf, ethol o blith ei aelodau gadeirydd ac is-gadeirydd y corff llywodraethu cysgodol.

(2) Ni chaniateir ethol person sy'n cael ei gyflogi i weithio yn yr ysgol i fod yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd.

(3) Caiff cadeirydd neu is-gadeirydd y corff llywodraethu cysgodol, ar unrhyw adeg, ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i glerc y corff llywodraethu cysgodol.

(4) Rhaid i gadeirydd neu is-gadeirydd y corff llywodraethu cysgodol beidio â dal ei swydd:

- (a) os yw'n peidio â bod yn llywodraethwr cysgodol; neu
- (b) os yw'n cael ei gyflogi i weithio yn yr ysgol.

a normally constituted governing body, the authority must make arrangements providing for the establishment of a governing body for the school in anticipation of the transition to a normally constituted governing body⁽¹⁾.

(2) In these Regulations, a governing body so established is referred to as a shadow governing body and members of the shadow governing body are referred to as shadow governors.

(3) Nothing in these Regulations prevents the appointment or election of an interim executive member as a shadow governor.

Members of shadow governing body

6. The shadow governing body is to consist of members elected or appointed as the case may be in accordance with regulations 4 to 12A of the Government Regulations as modified by regulation 4 of these Regulations.

Constitution of shadow governing body

7. The shadow governing body of a school must be constituted in accordance with such of regulations 13 to 20 of the Government Regulations, as modified by regulation 4 of these Regulations, as are applicable having regard to the category of school.

Qualifications, resignation and removal of shadow governors

8. Regulations 24 and 26 to 30 of, and Schedule 5 to, the Government Regulations as modified by regulation 4 of these Regulations apply in relation to shadow governors.

Chair and vice-chair

9.—(1) The shadow governing body must, at its first meeting, elect a chair and vice-chair of the shadow governing body from among its number.

(2) A person employed to work at the school may not be elected as chair or vice-chair.

(3) The chair or vice-chair of the shadow governing body may, at any time, resign his or her office by giving notice in writing to the clerk to the shadow governing body.

(4) The chair or vice-chair of the shadow governing body must cease to hold office if:

- (a) he or she ceases to be a shadow governor; or
- (b) he or she is employed to work at the school.

(1) Fel y diffinnir "normally constituted governing body" ym mharagraff 1(1) o Atodlen 1A i Ddeddf 1998.

(1) As defined in paragraph 1(1) of Schedule 1A to the 1998 Act.

(5) Pan fo swydd cadeirydd neu is-gadeirydd yn dod yn wag, rhaid i'r corff llywodraethu cysgodol yn ei gyfarfod nesaf ethol un o blith ei aelodau i lenwi'r swydd wag honno.

(6) Pan fo'r cadeirydd yn absennol o unrhyw gyfarfod neu fod swydd y cadeirydd yn wag ar y pryd, rhaid i'r is-gadeirydd weithredu fel cadeirydd at bob diben.

Penodi clerc

10.—(1) Rhaid i'r awdurdod benodi'r clerc i'r corff llywodraethu cysgodol.

(2) Rhaid i glerc y corff llywodraethu cysgodol beidio â bod—

- (a) yn llywodraethwr cysgodol; neu
- (b) yn bennaeth yr ysgol.

(3) Er gwaethaf paragraff (2), caiff y corff llywodraethu cysgodol, pan fo'r clerc yn methu â mynychu un o gyfarfodydd y corff hwnnw, benodi unrhyw un o blith aelodau'r corff i weithredu fel clerc at ddibenion y cyfarfod hwnnw.

Gweithdrefn

11. Caiff y corff llywodraethu cysgodol benderfynu ei weithdrefn ei hun, yn ddarostyngedig i reoliadau 13 a 14.

Dirprwyo swyddogaethau

12. Rhaid i'r corff llywodraethu cysgodol arfer unrhyw swyddogaethau sydd wedi'u dirprwyo iddo gan y bwrdd gweithredol interim.

Swyddogaethau'r clerc

13. Rhaid i glerc y corff llywodraethu cysgodol:

- (a) mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethu cysgodol a sicrhau bod cofnodion o'r trafodion yn cael eu gwneud a'u llofnodi (yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y corff llywodraethu cysgodol) gan gadeirydd y cyfarfod; a
- (b) cyflawni unrhyw swyddogaethau eraill a benderfynir gan y corff llywodraethu cysgodol o bryd i'w gilydd.

Cofnodion

14.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i'r corff llywodraethu cysgodol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, drefnu bod copi o'r canlynol ar gael i'w archwilio yn yr ysgol—

- (a) yr agenda ar gyfer pob cyfarfod;
- (b) cofnodion llofnodedig pob cyfarfod; ac
- (c) unrhyw adroddiad neu bapur arall a gafodd ei ystyried yn y cyfarfod.

(5) Where a vacancy arises in the office of chair or vice-chair, the shadow governing body must at its next meeting elect one of its number to fill that vacancy.

(6) Where the chair is absent from any meeting or there is at the time a vacancy in the office of the chair, the vice-chair must act as chair for all purposes.

Appointment of clerk

10.—(1) The authority must appoint the clerk to the shadow governing body.

(2) The clerk to the shadow governing body must not be—

- (a) a shadow governor; or
- (b) the head teacher of the school.

(3) Notwithstanding paragraph (2), the shadow governing body may, where the clerk fails to attend one of its meetings, appoint any one of its number to act as clerk for the purposes of that meeting.

Procedure

11. The shadow governing body may determine its own procedure, subject to regulations 13 and 14.

Delegation of functions

12. The shadow governing body must exercise any functions which have been delegated to it by the interim executive board.

Functions of the clerk

13. The clerk to the shadow governing body must:

- (a) attend meetings of the shadow governing body and ensure that minutes of the proceedings are produced and signed (subject to the approval of the shadow governing body) by the chair of the meeting; and
- (b) perform such other functions as may be determined by the shadow governing body from time to time.

Minutes

14.—(1) Subject to paragraph (2), the shadow governing body must, as soon as reasonably practicable, make available for inspection at the school a copy of—

- (a) the agenda for every meeting;
- (b) the signed minutes of every meeting; and
- (c) any report or other paper considered at the meeting.

(2) Caniateir eithrio o unrhyw eitem y mae'n ofynnol ei rhoi ar gael yn unol â pharagraff (1), unrhyw ddeunydd sy'n ymwneud â'r canlynol—

- (a) person a enwir sy'n gweithio, neu y bwriedir iddo weithio, yn yr ysgol;
- (b) disgybl a enwir neu ymgeisydd a enwir am gael ei dderbyn i'r ysgol; neu
- (c) unrhyw fater arall sydd, oherwydd ei natur, yn fater y mae'r corff llywodraethu cysgodol wedi'i fodloni y dylai aros yn gyfrinachol.

Diwedd y cyfnod interim

15. O'r diwrnod y mae'r aelodau gweithredol interim yn peidio â dal eu swydd yn unol â pharagraff 18(1) o Atodlen 1A i Ddeddf 1998—

- (a) mae'r corff llywodraethu cysgodol i'w drin fel pe bai'n gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal;
- (b) mae aelodau o'r corff llywodraethu cysgodol i'w trin fel pe baent wedi bod yn aelodau o gorff llywodraethu a gyfansoddwyd yn normal o ddyddiad eu penodiad neu eu hetholiad yn ôl y digwydd;
- (c) mae cadeirydd ac is-gadeirydd y corff llywodraethu cysgodol i'w trin fel pe baent wedi cael eu hethol o dan reoliad 39(1) o'r Rheoliadau Llywodraethu;
- (ch) mae clerc y corff llywodraethu cysgodol i'w drin fel pe bai wedi cael ei benodi o dan reoliad 42 o'r Rheoliadau Llywodraethu.

(2) There may be excluded from any item required to be made available in pursuance of paragraph (1) any material relating to—

- (a) a named person who works, or who it is proposed should work, at the school;
- (b) a named pupil or candidate for admission to the school; or
- (c) any other matter that, by reason of its nature, the shadow governing body is satisfied should remain confidential.

End of the interim period

15. From the day on which the interim executive members cease to hold office in accordance with paragraph 18(1) of Schedule 1A to the 1998 Act—

- (a) the shadow governing body is to be treated as if it were a normally constituted governing body;
- (b) the members of the shadow governing body are to be treated as though they had been members of a normally constituted governing body from the date of their appointment or election as the case may be;
- (c) the chair and vice-chair of the shadow governing body are to be treated as though they had been elected under regulation 39(1) of the Government Regulations;
- (d) the clerk to the shadow governing body is to be treated as though he or she had been appointed under regulation 42 of the Government Regulations.

Leighton Andrews

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

22 Mehefin 2012

22 June 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

© Crown copyright 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 1643 (Cy.212)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion
(Trosi o fod yn Fwrdd Gweithredol
Interim) (Cymru) 2012

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 1643 (W.212)

EDUCATION, WALES

The School Governance (Transition
from an Interim Executive Board)
(Wales) Regulations 2012